Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

8 Chwefror 2021

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD HMICFRS / Y COLEG PLISMONA / SWYDDFA ANNIBYNNOL YMDDYGIAD YR HEDDLU: 'SAFE TO SHARE? REPORT ON LIBERTY AND SOUTHALL BLACK SISTERS' SUPER-COMPLAINT ON POLICING AND IMMIGRATION STATUS'

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag arfer yr heddlu o rannu gwybodaeth dioddefwyr â'r Swyddfa Gartref. Daw i'r casgliad bod y system bresennol yn achosi niwed i fudd y cyhoedd ac yn gwneud argymhellion i weithio i sicrhau bod dioddefwyr troseddau bob amser yn cael eu trin fel dioddefwyr yn anad dim, ni waeth beth yw eu statws mewnfudo.

Rwy'n croesawu'r adroddiad ac, fel bob amser, yn croesawu argymhellion sy'n canolbwyntio ar wella'r ffordd y caiff dioddefwyr eu trin. Rwy'n falch gweld bod argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer nifer o gyrff, gan gynnwys y Swyddfa Gartref.

Mae'r Prif Gwnstabl a minnau yn cydnabod bod yr effaith a gaiff troseddau caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a thrais domestig ar ddioddefwyr a'u teuluoedd yn wirioneddol ddinistriol. Fel y cyfryw, mae mynd i'r afael yn gadarn â throseddau o'r fath, ynghyd â sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu'n effeithiol, yn rhan annatod o waith plismona bob dydd ac yn parhau'n flaenoriaeth yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, ac yng Nghynllun a gweledigaeth strategol y Prif Gwnstabl. Mae Ffocws Dioddefwyr wrth wraidd ein hymateb a, thrwy weithio'n agos gyda phartneriaid allanol, mae Heddlu De Cymru yn ceisio sicrhau yr ystyrir pob llwybr i ddiwallu anghenion diogelu a chymorth dioddefwyr unigol.

Gwyddom, oherwydd eu hamgylchiadau penodol a dylanwad rheolaethol drwy orfodaeth y sawl sy'n cyflawni'r troseddau hyn, y gall fod yn arbennig o anodd i ddioddefwyr roi gwybod i'r heddlu am y mathau hyn o droseddau. Deallwn fod y diffyg adrodd hwn yn waeth mewn achosion lle gallai agweddau ar eu statws mewnfudo ynddo'i hun arwain at ganlyniadau negyddol, a gall hyn eu hatal rhag ymgysylltu â'r heddlu. Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i sicrhau, ni waeth beth yw eu statws ymfudo, y caiff pob dioddefwr wasanaeth o'r un safon a'r un hawliadau sydd wedi'u diffinio o fewn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Mae gen i Arweinydd Strategol ar gyfer Dioddefwyr a Phobl Agored i Niwed yn fy nhîm, ac mae'n gweithio'n ddiwyd gydag asiantaethau partner i sicrhau bod gofal i ddioddefwyr yn rhan annatod o'n gwaith ac yn parhau'n flaenoriaeth i Heddlu De Cymru. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru hefyd yn aelod o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu, sy'n sicrhau bod llais ffoaduriaid yn cael ei gynrychioli yn fy ngwaith goruchwylio a chraffu.

Gan adeiladu ar y gwaith cychwynnol rhagorol a wnaed o ganlyniad i'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, mae Rhaglen Pobl Agored i Niwed Heddlu De Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar yn galluogi'r Prif Gwnstabl a minnau i ymrwymo i fynd ati ymhellach i ymwreiddio ffocws eithriadol a chyson ar ddioddefwyr. Mae cwmpas y rhaglen yn cynnwys dioddefwyr y troseddau hynny dan sylw yn adroddiad HMICFRS, ac mae'n ymwybodol o anghenion penodol y dioddefwyr hynny y mae eu statws mewnfudo yn ansicr.

Mewn ymateb i adroddiad HMICFRS, mae'r Prif Gwnstabl yn nodi'r enghreifftiau canlynol o waith a wnaed, neu sydd ar y gweill, i dynnu sylw at yr ymrwymiad hwn:

- *Mae Heddlu De Cymru yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod ei swyddogion a'i staff yn cael canllawiau clir a diamwys ynghylch blaenoriaethu diogelu dioddefwyr a gorfodi rheolau mewnfudo. Er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo dull gweithredu cyson, mae ap wedi'i deilwra'n benodol, a ddyluniwyd gan un o swyddogion Heddlu De Cymru sydd ar secondiad i'r Ganolfan Cydgysylltu Troseddau Rhyngwladol, wedi cael ei osod ar bob dyfais llaw symudol. Mae'r ap yn rhoi canllawiau clir a diamwys i bob swyddog gweithredol a phob aelod o staff sy'n delio â throseddau o'r fath ac yn nodi'r canlynol yn glir "If you are dealing with a victim/ witness who may be an immigration offender, the priority should be to treat them as a victim/witness".*

- *Yn yr adroddiad HMICFRS diweddar, tynnwyd sylw at y cydberthynas rhwng Heddlu Gogledd Cymru a BAWSO (Black Association of Women Step Out) fel enghraifft o arfer da. Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod ac yn cymeradwyo hyn, ond mae'n bwysig pwysleisio fod gan Heddlu De Cymru gydberthynas gref â BAWSO hefyd. Mae tystiolaeth o'r bartneriaeth agos honno i'w gweld yn y trefniant bod y ddau gorff yn cydariannu Cydgysylltydd Masnachu mewn Pobl MARAC, ar secondiad o BAWSO, a Chynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig profiadol a gweithiwr allgymorth, i weithio yn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd. Mae'r persbectif ehangach a alluogir gan y trefniant hwn yn sicrhau*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

bod anghenion amrywiol y dioddefwyr yn cael eu deall a bod dull gweithredu cyfannol o ddiogelu, sydd wedi'i gyfeirio at anghenion yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gyfeirio at yr asiantaethau cymorth mwyaf priodol a bod statws mewnfudo ynddo'i hun yn cael ei gydnabod fel ffactor risg.

- *Drwy greu swydd yn ddiweddar o fewn Swyddfa Cudd-wybodaeth yr Heddlu, darparwyd goruchwyliaeth ganolog o holl ymchwiliadau Heddlu De Cymru, a sicrhawyd eu cysondeb. Mae hefyd yn cynnig pwynt cyswllt unigol lle gall swyddogion gael cyngor penodol a chyffredinol am Gaethwasiaeth Fodern.*

- *Mewn perthynas â Chyfnewid Gwybodaeth am Ddioddefwyr Troseddau Heb Ganiatâd i Aros, mae Heddlu De Cymru'n gweithio o fewn fframweithiau canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu 2018 (fel y'u diwygiwyd 2020). Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i graffu ar ein prosesau presennol yng ngoleuni ei ganfyddiadau a dysgu o enghreifftiau o arferion da gan ein cymheiriaid ac mewn ardaloedd heddluoedd eraill.*

Mae'r Prif Gwnstabl yn crynhoi ei farn am yr adroddiad fel a ganlyn:

'Mae Heddlu De Cymru'n croesawu'r adroddiad a byddwn yn sicrhau bod ei argymhellion a'i ganfyddiadau'n cael eu hadolygu ac, os nad ydynt eisoes wedi'u hymgorffori yn ein plismona dyddiol, eu bod yn cael eu hymgorffori i wasanaeth rhagorol, sy'n canolbwyntio ar y dioddefwyr a ddarperir i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern, masnachu mewn pobl a thrais domestig. Yn benodol, byddwn yn parhau i roi sicrwydd i bobl agored i niwed yn ein cymunedau na ddylai statws mewnfudo ansicr gael ei ystyried yn rhwystr i geisio amddiffyniad a chymorth yr heddlu'.

Rwyf innau, fel Comisiynydd, yn parhau i ariannu Ffocws Dioddefwyr De Cymru yn ein hardal, sy'n blaenoriaethu cymorth i ddioddefwyr i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae hon yn enghraifft arall o drefniant partneriaeth llwyddiannus sy'n hyrwyddo fy ymrwymiad i, ac ymrwymiad y Prif Gwnstabl, i waith diogelu cyfannol a chymorth i ddioddefwyr. Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Gwnstabl am ei sylwadau ar yr adroddiad hwn ac rwy'n dawel fy meddwl bod yr ymrwymiad i ddiogelu pobl â statws mewnfudo yn cael ei ddeall yn well yn Heddlu De Cymru. Wedi dweud hynny, rwy'n croesawu'r argymhellion ar gyfer plismona a phob corff y cyfeirir ato yn yr adroddiad, a'r cyfleoedd pellach i ddiogelu y byddant yn eu cynnig.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

Y Gwir Anrh Alun Michael
COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
Ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English